NETHERWOOD SUSTAINABLE FUTURES
Sustainable Development & Climate Change Consultancy

pwc

**ADRODDIAD GAN**
**NETHERWOOD SUSTAINABLE FUTURES A PwC**
**I FWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF**

# Cwm Taf: Deall Ein Cymunedau

## Ymgynghoriad ar yr Asesiad Lles: adroddiad dadansoddi byr

Dr. Alan Netherwood (Netherwood Sustainable Futures)
Jeff Brown (PwC)

12 Rhagfyr 2016

DRAFT

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r ddogfen yma'n cynnwys adroddiad byr gan Netherwood Sustainable Futures (NSF) a PwC i gynorthwyo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf gyda'r Asesiad Lles sy'n cael ei baratoi mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.2 Erbyn mis Hydref 2016 roedd Partneriaeth Cwm Taf wedi paratoi 4 'dogfen ragbaratoi' i lywio ei hasesiad ar les amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, ac roedd hi yn y broses o ddatblygu 6 dogfen arall ar agweddau amrywiol ar yr Asesiad Poblogaeth gofynnol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Amcan comisiynu NSF a PwC oedd archwilio'r 4 'Dogfen Ragbaratoi' gyda rhanddeiliaid, yn rhan o ymgynghoriad ar asesiad lles[1].

1.3 Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o'r canfyddiadau allweddol a'r themâu mwyaf pwysig a ddaeth i'r amlwg yn y 4 gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid. Cynorthwyodd NSF a PwC bartneriaeth Cwm Taf i gynllunio’r gweithdai yma a’u hwyluso er mwyn llywio'r asesiad lles yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2016. Dyma fanylion y gweithdai:

Lles diwylliannol, Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen, Pontypridd, 28/10/16
Lles amgylcheddol, Canolfan Fusnes Orbit, Merthyr Tudful, 4/11/16
Lles economaidd, Theatr y Parc a'r Dâr, Treorci, 10/11/16
Lles cymdeithasol, Canolfan Soar, Pen-y-graig, 22/11/16

1.4 Roedd y gweithdai yma'n cynnwys rhanddeiliaid o bob rhan o ardal Cwm Taf i wneud y canlynol:

- Trafod **penawdau/materion hanfodol** o'r asesiad hyd yma
- Trafod **ymateb** priodol i'r penawdau/materion hanfodol
- Nodi **camau gweithredu** ar gyfer gwaith pellach yn y dadansoddiad o'r ymateb sydd i ddod
- Amlygu'r **pethau sy'n gyffredin a'r cysylltiad** â'r rhannau eraill o'r asesiad (diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd)
- Pennu'r cyd-destun i ddatblygu'r **dadansoddiad o'r ymateb**

[1] Mae profiad NSF a PwC sy'n berthnasol i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gynnwys yn Atodiad A

Er mwyn ysgogi trafodaeth ym mhob gweithdy, arweiniodd NSF a PwC 4 ymarfer gwahanol. Dyma fanylion y gweithdai:

Ymarfer 1: Trafod y Dogfennau Rhagbaratoi; Penawdau; Bylchau; Gwelliannau.

Ymarferion 2 a 3: Trafod Ymateb i'r Penawdau gan ddefnyddio'r tabl canlynol:

| | |
|---|---|
| **Existing** (stuff we are already doing) | **Enhanced** (more of the same) |
| **New (Simple)** (alternative approach easy to do) | **New (Complex)** (alternative approach hard to do) |

Ymarfer 4: Integreiddio rhwng penawdau mewn Dogfennau Rhagbaratoi eraill.

1.5 Mae'n bwysig nodi mai diben yr adroddiad yma yw llywio gwaith ail-ddrafftio'r asesiad lles ar ôl ymgynghori ac i lywio ymagwedd Partneriaeth Cwm Taf tuag at y dadansoddiad o'r ymateb. Pwrpas yr allbwn o'r sesiynau yma yw darparu deunydd fydd yn cael ei gynnwys yn yr asesiad lles (ac yn ei lywio), gan gynorthwyo'r Bartneriaeth i symud o'r dadansoddiad sefyllfaol - y data a rhywfaint o ddehongli - i'r cwestiwn 'felly beth' - i beth yw ein blaenoriaethau ni a beth rydyn ni'n mynd i wneud amdanyn nhw? Bydd cynnwys yr wybodaeth yma yn yr asesiad lles yn bwysig - er mwyn datblygu trafodaeth bellach ar ddatblygu'r Cynllun a sefydlu mecanweithiau cyflenwi.

1.6 Yn ogystal â hynny, mae'n bwysig nodi y cafodd pob gweithdy ei gynllunio i lywio Cyfnewidiad Cyntaf Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful gyda'r gweithdy lles Amgylcheddol yn cael ei gynnal (a'i ariannu gan Gyngor Merthyr Tudful) yn benodol er mwyn canolbwyntio ar faterion allweddol ar gyfer y Cynllun.

1.7 Dydy'r adroddiad yma ddim yn ddadansoddiad bylchau (er bod bylchau data yn cael eu trafod), nac adroddiad air am air am allbwn y gweithdai, sydd ar gael mewn dogfen arall. Nid adolygiad o Ddogfennau Rhagbaratoi asesiad lles mohono.

1.8 <u>Mae'n</u> ddadansoddiad ystyriol o'r broses ymgysylltu a'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymgynghoriad, ac mae'n rhoi syniad o'r *materion strategol* y bydd angen i'r asesiad, y dadansoddiad o'r ymateb a'r cynllun lles ymdrin â nhw, yn hytrach na *syniadau neu ymyriadau unigol* sydd wedi deillio o'r gweithdai.

1.9 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro i ddarparu trosolwg cryno o bob thema asesu lles yn ei thro - diwylliannol, amgylcheddol, economaidd, a chymdeithasol, gydag adran gloi i archwilio materion trawsbynciol gyda rhai argymhellion ar gyfer paratoi dadansoddiad o'r ymateb a'r Cynllun Lles.

1.10 Mae yna nifer o ffactorau y mae rhaid eu cydnabod ar ddechrau'r adroddiad yma y dylid eu cadw mewn cof wrth ddarllen y dadansoddiad yma:

- Mae Partneriaeth Cwm Taf wedi datblygu sgwrs flaengar arloesol ymysg rhanddeiliaid ar draws Cwm Taf am ei asesiad lles
- Darparodd awduron y pedair 'Dogfen Ragbaratoi' asesu (o'r sefydliadau partner) ddata a dadansoddiad ardderchog yn gynnig cyntaf ar yr asesiad lles (yn ogystal â gwneud eu swyddi arferol) a doedden nhw ddim o reidrwydd yn 'arbenigwyr' yn y meysydd yma.

- Darparodd awduron y Dogfennau Rhagbaratoi grynodebau a hwyluso ardderchog yn y gweithdai eu hunain

- Mae gwaith cydlynu (rhwng y ddau awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill) Dadansoddwr Partneriaeth Cwm Taf, sef Rae Baker, wedi bod o'r radd flaenaf a dylid ei ganmol.

- Mae'r broses gyfan wedi'i datblygu mewn diwylliant cadarnhaol, i ganolbwyntio ar 'yr hyn sy'n dda' fel gwrthbwynt ar gyfer anawsterau cynhenid cynllunio ar gyfer y dyfodol, trwy galedi, diwygio lles, ailgynllunio gwasanaethau cyhoeddus ac ansicrwydd ôl-Brexit.

1.11 Mae'r adrannau canlynol yn enghreifftiau o lefel y drafodaeth sydd eisoes ar y gweill yn Asesiad Lles Cwm Taf.

DRAFT

## 2. LLES DIWYLLIANNOL

Mae'r adran yma'n rhoi trosolwg o faterion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdy lles Diwylliannol. Mae'r rhain yn cael eu rhannu'n bedwar categori: ***materion strategol*** y bydd angen eu pwysleisio (efallai) yn yr asesiad, dadansoddiad o'r ymateb a'r cynllun lles; ***ymatebion ymarferol*** posibl a all gael eu dilyn trwy'r cynllun lles; materion penodol y mae angen ymdrin â nhw yn y ***papur rhagbaratoi ar gyfer lles; a chyfleoedd a heriau pellach*** y byddai modd ymdrin â nhw yn y dadansoddiad o'r ymateb a'r cynllun.

Argymhellir bod yr awduron Asesu yn ystyried y canlynol mewn perthynas â'r asesiad a'r cynllun lles:

- ydy hyn yn rhywbeth rydyn ni angen gwybod rhagor amdano fe nawr?
- ydy hyn yn rhywbeth rydyn ni angen gwybod wrth ddatblygu ein dadansoddiad o'r ymateb?
- ydy hyn yn rhywbeth sydd angen cael ei gynnwys fel eitem yn y Cynllun Lles ei hun er mwyn cynyddu ein gwybodaeth?

| **DIWYLLIANT: Materion Strategol sydd angen rhagor o bwyslais yn yr asesiad, yr ymateb a'r cynllun.** | **DIWYLLIANT: ymatebion ymarferol posibl gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid** |
|---|---|
| *Bydd angen gofalu bod y materion strategol canlynol yn cael eu pwysleisio ac nad ydyn nhw'n cael eu colli wrth baratoi'r cynllun:*<br><br>Mae angen rhagor o gydnabyddiaeth o amrywioldeb cymunedau a lleoedd, a'r rhan mae diwylliant yn ei chwarae yn y lleoliadau yma - dydy diwylliant ddim yn union yr un peth, mae'n lleol <u>iawn</u>.<br><br>Diwylliannau amrywiol o wahanol wledydd - tarddiad, ieithoedd, cyfraniad at ddiwylliant ar draws Cwm Taf.<br><br>Y berthynas rhwng gofal iechyd a gweithgareddau diwylliannol: gofal iechyd ataliol, yn enwedig ym maes iechyd meddwl, unigedd a chydlyniant cymdeithasol.<br><br>Swyddogaeth prosiectau diwylliannol lawr gwlad o ran darparu gweithgarwch ataliol, iechyd, trosedd, ansawdd amgylcheddol, cydlyniant cymdeithasol.<br><br>Gwerth gwaith y mudiadau gwirfoddol wrth gynnal a datblygu cyfalaf diwylliannol.<br><br>Cyfle a bygythiad digido a chyfryngau cymdeithasol i ddiwylliant - newid cenedliadol mawr, sy'n cyflwyno bygythiadau a chyfleoedd.<br><br>Y cysylltiad rhwng treftadaeth amgylcheddol, tirwedd a diwylliant. Mae'r amgylchedd a'r dirwedd yn rhan o hanes Cwm Taf - balchder mewn tirweddau lleol, amddiffyn treftadaeth ac asedau naturiol. | *Ystyriodd y cyfranogwyr y canlynol yn gyfleoedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu gweithredu drwy'r bartneriaeth ei hun a sefydliadau unigol:*<br><br>Cynyddu'r ddealltwriaeth o ba weithgaredd diwylliannol sydd ar gael - cyfeirio drwy'r holl gyfryngau. Hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol lleol. Manteisio i'r eithaf ar yr holl asedau diwylliannol yng Nghwm Taf a thu hwnt i'r ffiniau.<br><br>Cynyddu dealltwriaeth o gyfalaf ac asedau diwylliannol cymdeithasol: mapio: deall: ar lefel Cwm Taf ac o fewn y 4 maes.<br><br>Mapio cymunedau o ddiddordeb - nid dim ond seiliedig ar leoedd.<br><br>Proffil y Gymraeg ymhlith cymunedau Cwm Taf drwy wasanaethau cyhoeddus yn rhan bendant a phwysig o ddiwylliant - dull cydgysylltiedig ar draws pob gwasanaeth.<br><br>Ehangu trefnau atgyfeirio iechyd i gynnwys gweithgarwch diwylliannol, i gynorthwyo iechyd meddwl a chorfforol, trwy nodau personol, sgiliau newydd.<br><br>Buddsoddi mewn asedau sydd â defnydd aml-bwrpas i gynnwys gweithgareddau diwylliannol - ysgolion, chwaraeon, llyfrgelloedd, canolfannau cymuned rhyng-genedliadol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Y rhan mae Sefydliadau Addysg Bellach yn ei chwarae mewn diwylliant lleol. | |
| **DIWYLLIANT: materion penodol ar gyfer y Papur Rhagbaratoi Asesu** | **DIWYLLIANT: cyfleoedd a heriau i ddatblygu ymateb** |
| *Roedd cyfranogwyr o'r farn bod y materion canlynol angen rhagor o ddata/wybodaeth/gydnabyddiaeth yn ogystal â'r uchod:*<br><br>Angen diffiniad ehangach o ddiwylliant sy'n cydnabod: y celfyddydau, cerddoriaeth, chwaraeon, y cyfryngau a chwarae.<br><br>Cydnabyddiaeth o swyddogaeth enfawr y diwylliant bwyd a diod mewn lles a'r rhan mae'n ei chwarae mewn economïau lleol<br><br>Y Gymraeg yn rhan o hanes diwylliannol lleol a thirwedd<br><br>Busnesau a mentrau cymdeithasol gyda ffocws diwylliannol? | *Nododd cyfranogwyr y materion canlynol y bydd angen eu trafod ymhellach (efallai) yn y dadansoddiad o'r ymateb:*<br><br>Pwysigrwydd mannau ar gyfer gweithgareddau diwylliannol - yn yr awyr agored, rhithwir ac adeiledig.<br><br>Adeiladau gwag yn rhoi cyfle i gynnal gweithgarwch diwylliannol.<br><br>Gwylio chwaraeon yn ogystal â chymryd rhan yn uniongyrchol yn rhan bwysig o ddiwylliant.<br><br>Cyfleoedd ar gyfer menter gymdeithasol sy'n ymwneud â diwylliant<br><br>Celfyddydau a diwylliant fel llwybr gyrfa.<br><br>Swyddogaeth busnesau wrth gefnogi gweithgarwch diwylliannol ar draws Cwm Taf trwy weithlu, cefnogaeth ariannol. |

DRAFT

## 3. LLES AMGYLCHEDDOL

Mae'r adran yma'n rhoi trosolwg o faterion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdy lles Amgylcheddol. Mae'r rhain yn cael eu rhannu'n bedwar categori: ***materion strategol*** y bydd angen eu pwysleisio (efallai) yn yr asesiad, dadansoddiad o'r ymateb a'r cynllun lles; ***ymatebion ymarferol*** posibl a all gael eu dilyn trwy'r cynllun lles; materion penodol y mae angen ymdrin â nhw yn y ***papur rhagbaratoi ar gyfer lles; a chyfleoedd a heriau pellach*** y byddai modd ymdrin â nhw yn y dadansoddiad o'r ymateb a'r cynllun.

Argymhellir bod yr awduron Asesu yn ystyried y canlynol mewn perthynas â'r asesiad a'r cynllun lles:

- ydy hyn yn rhywbeth rydyn ni angen gwybod rhagor amdano fe nawr?
- ydy hyn yn rhywbeth rydyn ni angen gwybod wrth ddatblygu ein dadansoddiad o'r ymateb?
- ydy hyn yn rhywbeth sydd angen cael ei gynnwys fel eitem yn y Cynllun Lles ei hun er mwyn cynyddu ein gwybodaeth?

| **AMGYLCHEDD: materion strategol sydd angen rhagor o bwyslais yn yr asesiad, yr ymateb a'r cynllun** | **AMGYLCHEDD: ymatebion ymarferol posibl gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid** |
|---|---|
| *Bydd angen gofalu bod y materion strategol canlynol yn cael eu pwysleisio ac nad ydyn nhw'n cael eu colli wrth baratoi'r cynllun:*<br><br>Mae lefel uchel iawn o berchnogaeth tir cyhoeddus yn ased sylweddol ac yn gyfle ar gyfer gweithredu ar y cyd gan y sector cyhoeddus.<br><br>Defnyddio tir a'r amgylchedd adeiledig fel catalydd ar gyfer gwella lles corfforol a meddyliol drwy'r canlynol:<br>• Datblygu sgiliau<br>• Trechu unigedd<br>• Perthnasau clòs yn y gymuned<br>• Gallu cymunedau i ddatblygu ac arwain<br>• Celfyddydau diwylliant ac iaith i ddisgrifio'r berthynas â'r amgylchedd<br><br>Gwytnwch i newid yn yr hinsawdd fel penderfynydd allweddol o les, mynediad at wasanaethau, mewnfuddsoddi, cyllid sector cyhoeddus, gwytnwch cymunedol - yn berthnasol i bob rhan o'r Asesiad Lles - nid yn unig yn yr amgylchedd.<br><br>Cyfleoedd ar gyfer prosiectau amgylcheddol ar gyfer gwella sgiliau cymunedau ac unigolion a chyllid - annog stiwardiaeth leol<br><br>Defnydd amgen ac yn y cyfamser o safleoedd sydd o dan berchnogaeth gyhoeddus - bywyd gwyllt, ynni adnewyddadwy, bwyd, hamdden, diwylliant, sgiliau cadwraeth. | *Gwelodd y cyfranogwyr y canlynol yn gyfleoedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu gweithredu drwy'r bartneriaeth ei hun a sefydliadau unigol:*<br><br>Cynyddu mynediad at wybodaeth ynglŷn â'r hyn sydd o gwmpas - e.e. defnyddio rhaglenni (apps) Geocache, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Ysgolion Coedwig<br><br>Dylai gweithgarwch teithio llesol gysylltu â chyfleusterau cymuned, cyflogaeth, hamdden a bywyd gwyllt - cydlynu a mapio hyn.<br><br>Cynyddu hygyrchedd i dir sy'n eiddo i'r cyhoedd. Tirfeddianwyr statudol i gefnogi cymunedau i ymgysylltu â'r amgylchedd lleol. Cynnwys cymunedau, rheoli tir yn gynaliadwy, a gwybodaeth gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - rhannu gwybodaeth a chydlynu'r dull gweithredu.<br><br>Trafodaeth newydd gyda chymunedau - hyrwyddo - mae cefn gwlad ar gael iddyn nhw ei ddefnyddio - ac yn ased cymunedol a dylai fod yn destun balchder cymunedol - herio diwylliant cyffredin "does dim i blant ei wneud" - newidiadau i'r cwricwlwm.<br><br>Angen datblygu arweinyddiaeth a sgiliau ymhlith rhai sy'n gwneud penderfyniadau i adnabod a deall y cysylltiadau, a rhwng agweddau amgylcheddol ac agweddau eraill ar les, a chreu a chefnogi cysylltiadau |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Swyddogaeth gwirfoddolwyr a grwpiau cymuned i ddatblygu sgiliau a buddsoddi mewn cyfalaf amgylcheddol.<br><br>Cysylltiadau mwy effeithiol â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog trwy dirwedd, yr economi, twristiaeth, gwaith iechyd.<br><br>Rhan yr amgylchedd wrth ddenu/atal mewnfuddsoddi - atyniad fel lle i fyw a gweithio ynddo - 'cynnig' amgylcheddol Cwm Taf. | |
| **AMGYLCHEDD: materion penodol ar gyfer y papur asesu 'rhagbaratoi'** | **AMGYLCHEDD: cyfleoedd a heriau i lywio ymateb** |
| *Roedd cyfranogwyr o'r farn bod y materion canlynol angen rhagor o ddata/wybodaeth/gydnabyddiaeth yn ogystal â'r uchod:*<br><br>Angen ffocws mwy trefol.<br>Angen rhagor o ffocws ar dai.<br>Dylai cyswllt gael ei wneud rhwng yr amgylchedd, economi a chludiant cyhoeddus, teithio llesol.<br>Rhan mae hamdden ac adloniant yn ei chwarae yn yr amgylchedd.<br>Trosedd a dealltwriaeth o leoedd (tanau gwyllt - peryglon trwy apps).<br>Rhan y sector preifat yn stiwardiaid amgylcheddol, a'u heffaith ar ansawdd yr amgylchedd. | *Nododd cyfranogwyr y materion canlynol y bydd angen eu trafod ymhellach (efallai) yn y dadansoddiad o'r ymateb:*<br><br>Bydd perthynas pob cymuned ac unigolyn â'r amgylchedd (a'u barn amdano) yn wahanol ac yn amrywio mewn ardaloedd gwahanol o Gwm Taf.<br><br>Bydd hyn yn dibynnu ar y dirwedd, asedau amgylcheddol, ac amodau economaidd-gymdeithasol. Dylai ymyriadau gydnabod yr amrywiaeth yma.<br><br>Mae newid diwylliannol (digido) wedi arwain at lai o ddefnydd o'r awyr agored.<br><br>Gweithgaredd lefel mynediad ar gyfer ymgysylltiad pobl â'r awyr agored.<br><br>Plant a chwarae gwyllt - dull cydlynol rhieni, plant, ysgolion, grwpiau ieuenctid. Ymyrraeth blynyddoedd cynnar i gysylltu â'r awyr agored.<br><br>Dealltwriaeth o'r amgylchedd: rhwystr diogelwch.<br><br>Ffocws ar dechnoleg werdd - angen datblygu sgiliau ar hyn. |

DRAFT

## 4. LLES ECONOMAIDD

Mae'r adran yma'n rhoi trosolwg o faterion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdy lles Economaidd. Mae'r rhain yn cael eu rhannu'n bedwar categori: ***materion strategol*** y bydd angen eu pwysleisio (efallai) yn yr asesiad, dadansoddiad o'r ymateb a'r cynllun lles; ***ymatebion ymarferol*** posibl a all gael eu dilyn trwy'r cynllun lles; materion penodol y mae angen ymdrin â nhw yn y ***papur rhagbaratoi ar gyfer lles;*** *a* ***chyfleoedd a heriau*** pellach y byddai modd ymdrin â nhw yn y dadansoddiad o'r ymateb a'r cynllun.

Argymhellir bod yr awduron Asesu yn ystyried y canlynol mewn perthynas â'r asesiad a'r cynllun lles:

- ydy hyn yn rhywbeth rydyn ni angen gwybod rhagor amdano fe nawr?
- ydy hyn yn rhywbeth rydyn ni angen gwybod wrth ddatblygu ein dadansoddiad o'r ymateb?
- ydy hyn yn rhywbeth sydd angen cael ei gynnwys fel eitem yn y Cynllun Lles ei hun er mwyn cynyddu ein gwybodaeth?

| **ECONOMAIDD: materion strategol sydd angen rhagor o bwyslais yn yr asesiad, yr ymateb a'r cynllun** | **ECONOMAIDD: ymatebion ymarferol posibl gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid** |
|---|---|
| *Bydd angen gofalu bod y materion strategol canlynol yn cael eu pwysleisio ac nad ydyn nhw'n cael eu colli wrth baratoi'r cynllun:* | *Nododd y cyfranogwyr y cyfleoedd canlynol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu gweithredu drwy'r bartneriaeth ei hun a sefydliadau unigol:* |
| Angen symud i ffwrdd o iaith amddifadedd - hunaniaeth yn bwysig. | Dylai teithio llesol mapio a chysylltu â chludiant cyhoeddus, cyfleusterau gofal plant a safleoedd cyflogaeth. |
| Amlygu rhan yr economi anffurfiol yng Nghwm Taf a'r cyfraniad at gydlyniad cymdeithasol - gwirfoddoli, cynhalwyr (gofalwyr) anffurfiol, bancio amser. | Datblygu Cerdyn Oyster Cwm Taf - teithio cost isel, gofal plant gwell, gweithio gartref drwy sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. |
| Angen canolbwyntio ar yr amrywiaeth o gymunedau ac amodau a dewisiadau economaidd, yn hytrach na golwg cyffredinol e.e. mae canol pob tref yn wahanol. | Gall sefydliadau sector cyhoeddus ddatblygu gwaith y Cymdeithasau Tai (neu wneud yr un peth â nhw) sy'n datblygu sgiliau/hyfforddiant yn y gymuned yn rhan o'u swyddogaethau. |
| Mae angen rhagor o ffocws ar les economaidd cymunedau yn hytrach na lles economaidd yr unigolyn. | Gosod amodau ar ddatblygwyr er budd y gymuned a gwytnwch hinsawdd. |
| Canolbwyntio ar wneud yn fawr o incwm / reoli dyled. Beth yw lefelau dyled? | Canolfannau cymuned ar gyfer gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus yng nghanolau trefi - i weithio i ffwrdd o'r swyddfa, yn nes at adref. Gweithio o bell. |
| Cyfraniad busnesau a'r sector preifat yn gyffredinol at les mewn gwahanol leoliadau. | Dylai caffael a chomisiynu gwasanaeth cyhoeddus sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau |
| Rhan busnesau wrth gynnal annibyniaeth ar gyfer unigolion. | Datblygiadau tai cymysg integredig ar gyfer yr hen a'r ifainc i ddatblygu byw â chymorth. |
| Cymhlethdod tynnu arian Ewropeaidd yn ôl - angen deall goblygiadau tebygol a chynllunio/gweithredu/lobïo yn unol â hynny. | Gweithredu bysiau gwaith ar gyfer cyflogwyr sector cyhoeddus mawr. |
| | Cefnogi gofal plant fel mentrau cymdeithasol - |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Ailstrwythuro ac alinio rhaglenni gwrth-dlodi.<br><br>Cadw gweithlu hŷn<br><br>Pwysigrwydd cyn 16 oed ar ragolygon economaidd. Mae ymyriadau cynnar yn cael effaith hirdymor ar ragolygon economaidd unigolion. | lleihau costau.<br><br>Ymagwedd gydgysylltiedig at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy reoli asedau, datblygiadau cyfalaf i wneud yn fawr o effeithlonrwydd a chyfle economaidd yn yr ardal.<br><br>Mae swyddogaeth cynlluniau gweithlu y cyflogwyr mawr sector cyhoeddus yn cyfrannu at les lleol - i lywio rhagolygon cyflogaeth lleol a chaffael a chomisiynu i ddatblygu'r economi leol.<br><br>Gwell cymorth cyngor ynglŷn â rheoli prosiectau ar gyfer grwpiau cymuned newydd.<br><br>Rhan ysgolion yn y gymuned ar gyfer dysgu parhaus e.e. cyllidebu neu reoli dyled.<br><br>Gwneud y defnydd gorau o asedau adeiledig. Canolfannau busnes yn y gymuned mewn swyddfeydd/siopau/blaenoriaethau gwag. |
| **ECONOMAIDD: materion penodol ar gyfer y Papur Rhagbaratoi Asesu** | **ECONOMAIDD: cyfleoedd a heriau i lywio ymateb** |
| *Roedd cyfranogwyr o'r farn bod y materion canlynol angen rhagor o ddata/wybodaeth/gydnabyddiaeth yn ogystal â'r uchod:*<br><br>• Trosedd a'i effaith ar yr economi<br>• Lefelau o ddarpariaeth gofal plant<br>• Economi Twristiaeth<br>• Tai - y sector rhentu preifat yn benodol<br>• Beth yw'r potensial gwirioneddol ar gyfer cyflogaeth leol?<br>• Angen rhagor o ffocws ar gymunedau yn hytrach nag ar yr unigolyn, gormod o ffocws ar yr unigolyn/person.<br>• Sylwadau yn ymwneud â busnes. | *Nododd cyfranogwyr y materion canlynol y bydd angen eu trafod ymhellach (efallai) yn y dadansoddiad o'r ymateb:*<br><br>Ansicrwydd ynglŷn â darparu gwaith gwrth-dlodi ar ôl i brosiect Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben. Adeiladu ar y sylfeini yma.<br><br>Potensial ar gyfer diwydiant twristiaeth a rhan busnesau bach a chanolig mewn cymunedau lleol.<br><br>Rhagor o gymorth i bobl fod yn barod ar gyfer byd gwaith.<br><br>Ailfywiogi gwaith llwybr cyflogaeth.<br><br>Gwaith rhwng cenedlaethau - cyfnewidiadau sgiliau.<br><br>Gwella cludiant cyhoeddus.<br><br>Mae iechyd yn gwella'r economi yn gymaint ag y mae'r economi yn gwella iechyd, mae cyfoeth a chyflogaeth yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar iechyd.<br><br>Cysylltiadau cyflogwyr i ysgolion.<br><br>Cymhellion treth i fusnesau lleol.<br><br>Mae sgiliau iaith yn sgiliau cyflogaeth. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Effaith afiechyd ar yr economi. Gweithgareddau awyr agored = gwell iechyd = llai o absenoldeb oherwydd salwch.<br><br>Cysylltu teithio llesol â meysydd iechyd a chyflogaeth.<br><br>Rhaid bod chwaraeon a hamdden yn helpu rhagolygon yr economi.<br><br>Rhagor o hyder, ymddygiadau iechyd gwell.<br>Gall rhagor o weithgaredd hamdden ac adloniant arwain at swyddi, a swyddi at iechyd. |

DRAFT

DRAFT

## 5. LLES CYMDEITHASOL

Mae'r adran yma'n rhoi trosolwg o faterion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdy lles Cymdeithasol. Mae'r rhain yn cael eu rhannu'n bedwar categori: ***materion strategol*** y bydd angen eu pwysleisio (efallai) yn yr asesiad, dadansoddiad o'r ymateb a'r cynllun lles; ***ymatebion ymarferol*** posibl a all gael eu dilyn trwy'r cynllun lles; materion penodol y mae angen ymdrin â nhw yn y ***papur rhagbaratoi ar gyfer lles; a chyfleoedd a heriau pellach*** *y byddai modd ymdrin â nhw yn y dadansoddiad o'r ymateb a'r cynllun.*

Argymhellir bod yr awduron Asesu yn ystyried y canlynol mewn perthynas â'r asesiad a'r cynllun lles:

- ydy hyn yn rhywbeth rydyn ni angen gwybod rhagor amdano fe nawr?
- ydy hyn yn rhywbeth rydyn ni angen gwybod wrth ddatblygu ein dadansoddiad o'r ymateb?
- ydy hyn yn rhywbeth sydd angen cael ei gynnwys fel eitem yn y Cynllun Lles ei hun er mwyn cynyddu ein gwybodaeth?

| **CYMDEITHASOL: materion strategol sydd angen rhagor o bwyslais yn yr asesiad, yr ymateb a'r cynllun** | **CYMDEITHASOL: ymatebion ymarferol posibl gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid** |
|---|---|
| *Bydd angen gofalu bod y materion strategol canlynol yn cael eu pwysleisio ac nad ydyn nhw'n cael eu colli wrth baratoi'r cynllun:*<br><br>Her digido. Mae pobl yn canolbwyntio ar y cyfryngau cymdeithasol, a all erydu (neu ddatblygu) cydlyniad cymunedol.<br><br>Tlodi o ran dyheadau mewn llawer o gymunedau.<br><br>Cymunedau ynysig - diboblogi - beth yw'r dull strategol?<br><br>Dirywiad y stoc dai hŷn - fforddiadwyedd? Diwygio lles<br><br>Ystrydebau negyddol o gymunedau'r cymoedd.<br><br>Trefniadau ariannu mwy tymor hir a chydlynol.<br><br>Arian yn cael ei wario ar atal yn lle lliniaru.<br><br>Cydweithio gwell rhwng sefydliadau cenedlaethol a thrydydd sector a grwpiau lleol.<br><br>Rhan mannau gwyrdd ar gyfer addysg awyr agored, iechyd a grwpiau penodol. Gwneud y defnydd gorau o'r awyr agored i wella iechyd meddwl.<br><br>Rhagor o waith ar dueddiadau ac effaith yn y dyfodol ar gymunedau Cwm Taf | *Nododd y cyfranogwyr y cyfleoedd canlynol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu gweithredu drwy'r bartneriaeth ei hun a sefydliadau unigol:*<br><br>Pwyso a mesur deilliannau yn ôl gwerth prosiectau cymdeithasol ac nid yn ôl niferoedd.<br><br>Defnydd o asedau cymunedol (hen dafarndai) fel caffis nos<br><br>Datblygu hyfforddiant a sgiliau mewn cymunedau drwy fentrau cymdeithasol a hunan-gymorth yn y gymuned.<br>(Staff y Sector Cyhoeddus yn cael eu hyfforddi i wneud hyn drwy gynllunio gweithlu)<br>Ymarferion yn y gymuned ac ymarferion gwaith ar gyfer gweithwyr sector cyhoeddus - Siapan.<br><br>Clybiau - mapio - catalyddion ar gyfer creu cydlyniant cymunedol.<br><br>Sefydlu canolfannau cymuned yn ffocws ar gyfer gweithgareddau a chyfranogiad<br><br>Ymgysylltu â chymunedau a'u helpu i ddatblygu<br>• Cydweithfeydd bwyd<br>• Undebau Credyd<br>• Bancio amser<br>• Sgiliau rheoli arian<br>• Trafnidiaeth/atebion lleol<br>• Ysgolion coedwigaeth |
| **CYMDEITHASOL: materion penodol ar gyfer y** | **CYMDEITHASOL: cyfleoedd a heriau i lywio** |

| papur Asesu 'Rhagbaratoi' | ymateb |
|---|---|
| *Roedd cyfranogwyr o'r farn bod y materion canlynol angen rhagor o ddata/wybodaeth/gydnabyddiaeth yn ogystal â'r uchod:*<br><br>• Tai<br>• Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>• Cymunedau Diogel<br>• Addysg<br>• Gormod o bwyslais ar iechyd<br>• Ddim yn canolbwyntio ar y gymuned<br>• Ddim yn adlewyrchu lles diwylliannol<br>• Ddim yn adlewyrchu asedau cymunedol<br>• Swyddogaeth cyflogaeth mewn lles cymdeithasol<br>• Safonau cymdeithasol unigryw yn y Cymoedd<br>• Ynysu cymdeithasol<br>• Oes sgiliau sydd ar gael mewn cymunedau?<br>• Beth all pobl ei gynhyrchu - beth yw ein hasedau cymdeithasol? | *Nododd cyfranogwyr y materion canlynol y bydd angen eu trafod ymhellach (efallai) yn y dadansoddiad o'r ymateb.*<br><br>• Rhan mae teidiau a neiniau yn ei chwarae fel cynhalwyr (gofalwyr).<br>• Gwerth gwirfoddoli i bobl hŷn.<br>• Siediau dynion/menywod<br>• Cynlluniau rhannu llety<br>• Garddio<br>• Rhandiroedd (lleiniau garddio)<br>• Sgiliau traddodiadol - yr henoed a'r ifainc<br>• Meddygon teulu yn cyfeirio pobl at gyfleoedd awyr agored<br>• Cymhellion i adeiladau cymunedol ddarparu bwyd cyflym iach |

DRAFT

## 6. DADANSODDIAD CRYNO AC ARGYMHELLION

6.1 Mae'n amlwg bod gan gyfranogwyr ddealltwriaeth gyfoethog o Gwm Taf sydd wedi helpu i nodi ymatebion strategol ac ymarferol, cyfleoedd, heriau ac awgrymiadau ynglŷn â'r hyn sydd angen cael rhagor o bwyslais yn yr asesiad. Mae'r rhain yn ddata ffrwythlon sydd wedi cael eu datblygu o fewn adnoddau cyfyngedig.

6.2 Mae'r materion sydd o dan y themâu **economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol**, gyda'i gilydd, yn creu dealltwriaeth lawn o les. Nawr mae angen datblygu hyn er mwyn paratoi dadansoddiad o'r ymateb a chynllun, sydd:

a) yn ailffocysu ar asedau yn ogystal ag ar ddiffygion yn ardal Cwm Taf
b) adlewyrchu amrywiaeth eang cymunedau a chymunedau o ddiddordeb ar draws Cwm Taf
c) adlewyrchu'r gwahaniaethau yn yr hyn mae lles yn ei olygu mewn ardaloedd penodol
ch) ymgysylltu â'r gymuned fusnes i ddeall eu swyddogaethau lluosog mewn lles lleol
d) yn cydnabod gwerth ac effaith cyfalaf cymdeithasol [2]yng Nghwm Taf
dd) yn ystyried effaith trosedd ar draws y themâu lles
e) yn ystyried gwytnwch newid yn yr hinsawdd yn benderfynydd allweddol o les sy'n berthnasol i'r holl themâu (mynediad i wasanaethau, buddsoddiadau, cyllid y sector cyhoeddus, gwytnwch cymunedol)

6.3 Dyma faterion penodol i'w hamlygu ar gyfer **lles diwylliannol**:

a) cysylltiadau mwy clir rhwng lles diwylliannol a chymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r gweithdai
b) amrywiaeth asedau (dynol, adeiledig, ffisegol a chymdeithasol) sydd ar gael mewn cymunedau penodol a sut i ddefnyddio'r rhain i gefnogi lles diwylliannol
c) dealltwriaeth o sut mae busnes yn cefnogi diwylliant trwy gyflenwi nwyddau (bwyd a diod), cefnogi gweithgarwch diwylliannol a gofod ffisegol

6.4 Materion penodol i'w hamlygu ar gyfer **lles amgylcheddol** yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith bod gan Gwm Taf gymaint o dir sydd o dan berchnogaeth y cyhoedd, sydd yn rhoi cyfleoedd sylweddol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wneud y canlynol:

a) gwytnwch hinsawdd, gan gynnwys rheoli tir i leihau effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd ar gymunedau
b) ymgysylltu â chymunedau wrth ddefnyddio tir i ddibenion lles gan gynnwys lles diwylliannol, corfforol a meddyliol ar gyfer pob grŵp oedran, gan gynnwys pobl ifainc iawn
c) cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem eraill (gan gynnwys dŵr a phriddoedd)
ch) ymgysylltu â chymunedau wrth reoli tir i wella sgiliau a lles unigol
d) cysylltiadau mwy clir rhwng lles amgylcheddol a chymdeithasol, economaidd a diwylliannol, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r gweithdai

6.5 Yn ogystal â'r mater pwysig o ymgysylltu â busnes yn yr asesiad a'r cynllun, rhaid amlygu materion penodol ar gyfer **lles economaidd** megis yr angen i gydnabod ac adlewyrchu:

a) gwerth yr economi anffurfiol yng Nghwm Taf i ddeilliannau lles lluosog
b) effaith diwygio lles ac effaith bosibl Brexit ar wahanol gymunedau a chymunedau o ddiddordeb ar draws Cwm Taf

---

[2]Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn disgrifio Cyfalaf Cymdeithasol fel gweithgaredd rhwydweithiau o grwpiau (daearyddol, proffesiynol rhithwir, cymdeithasol) sy'n gefn i les cymdeithasol – mae rhagor o wybodaeth yma: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/user-guidance/social-capital-guide/the-social-capital-project/guide-to-social-capital.html

DRAFT

c) amrywiaeth yr amodau economaidd mewn cymunedau ar draws Cwm Taf gan gynnwys y rhai sy'n arbennig o ynysig yn ddaearyddol

ch) yr holl awgrymiadau ymarferol ynglŷn â sut y gall y sector cyhoeddus effeithio ar les economaidd drwy addasu ei ymagwedd tuag at 'fusnes' a chyflenwi gwasanaethau

d) cysylltiadau mwy clir rhwng lles economaidd a chymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r gweithdai

6.6 Ar gyfer **lles cymdeithasol** mae rhai meysydd pwysig y bydd angen eu hystyried wrth i'r asesiad, ymateb a'r cynllun ddatblygu, gan gynnwys tai, asedau cymunedol, addysg a diogelwch cymunedol. Mae angen i'r ffocws iechyd cyfredol gael ei ail-gydbwyso i adlewyrchu'r prif feysydd polisi yma, yn ogystal â'r materion penodol canlynol:

a) cydnabyddiaeth o sut mae digido wedi erydu cyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau, yn ogystal â'r cyfleoedd i'w defnyddio i gysylltu cymunedau, cymunedau o ddiddordeb ac unigolion.

b) defnyddio ffrâm cyfalaf cymdeithasol i ddeall yr ystod o asedau cymdeithasol sydd ar gael mewn cymunedau unigol ac ar draws Cwm Taf

c) effaith ynysu cymdeithasol ar gymunedau penodol

ch) cysylltiadau mwy clir rhwng lles cymdeithasol a diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r gweithdai

6.7 Rhai materion penodol terfynol i'w hystyried ar gyfer **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**:

a) rhaid i ymgynghoriad Cwm Taf gael ei gydnabod yn ymgais i ddatblygu trafodaeth *ar draws* systemau polisi traddodiadol i ddatblygu'r asesiad lles.

b) wrth ddatblygu ymateb a chynllun, rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r rhyng-gysylltiadau rhwng lles amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn cael eu colli ac yn cael eu harchwilio a'u hadlewyrchu yng nghynnwys y cynllun.

c) mae angen i'r cynllun lles gydnabod y materion sy'n deillio o'r ymgynghoriad yma a'r *amrywiaeth* o faterion lles ar draws tirwedd gymdeithasol, economaidd a ffisegol gymhleth. Dylid cymryd gofal i ddatblygu atebion sydd ddim yn unffurf ac yn 'addas i bawb'

ch) wrth i'r broses Cynllunio gyrraedd ei chamau terfynol ar ddiwedd 2017 ac ar ddechrau 2018, argymhellir bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r ddogfen yma i ystyried cynnwys y Cynllun, a sicrhau bod y cyfleoedd mawr a'r her ar gyfer gweithredu ar y cyd sydd wedi deillio o'r adroddiad yma, wedi cael eu hystyried a'u bod nhw wedi derbyn sylw.

**Dr. Alan Netherwood (Netherwood Sustainable Futures)**
**Jeff Brown, PwC**

**12 Rhagfyr 2016**

DRAFT

ATODIAD A

Mae gan NSF a PWC ystod eang o brofiad sy'n berthnasol i'r maes yma o waith gan gynnwys:

- Gwaith gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar eu Rhaglen Mabwysiadwyr Cynnar ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod 2014/2015, gydag 11 awdurdod lleol a 3 Pharc Cenedlaethol yng Nghymru (gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful)
- Mae NSF yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru ar gyfrifoldebau corfforaethol o dan y Ddeddf, a gwaith partneriaeth drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. [Powys (asesiad lles), Caerffili, Torfaen, Ceredigion, Sir Fynwy.]
- Gwaith parhaus NSF gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu ei allu i ymateb i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ledled Cymru, ac fel corff corfforaethol, gan gynnwys asesiadau lles, ac ymgysylltu â 20 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Cymru
- Gwaith NSF gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol drwy weithdai ym mis Mawrth a mis Mai 2016
- Gwaith NSF gyda Heddlu Dyfed Powys ar eu hymateb i'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- Mae profiad PwC mewn perthynas â'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn ymestyn i waith a gafodd ei wneud yn ystod camau cychwynnol deddfwriaethol y Ddeddf, pan ymgymerodd PwC ag asesiad o effaith Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar randdeiliaid. Ffurfiodd y gwaith yma ran allweddol o ran o Asesiad terfynol rheoleiddio statudol Llywodraeth Cymru o'r Mesur (bryd hynny)
- Mae PwC hefyd wedi ymgymryd â gwaith arloesol diweddar gyda'r Hwb Gwyddorau Bywyd yng Nghymru a asesodd y ffordd mae'r sector pwysig yma'n cyfrannu at nodau lles cenedlaethol Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- Mae NSF a PwC ill dau ar hyn o bryd yn paratoi gwaith ar y cyd ar arweinyddiaeth hefyd, sy'n ystyried y rhan bydd y sector preifat yn ei chwarae wrth ddarparu dyheadau'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol

DRAFT